YSGOL CRAIG Y DERYN

GWYBODAETH I RIENI MEDI 2017	INFORMATION FOR PARENTS SEPTEMBER 2017
CROESO CYNNES IAWN I RIENI A PHLANT NEWYDD – GOBEITHIO Y BYDDWCH YN HAPUS YMHLITH TEULU BACH YSGOL CRAIG Y DERYN!	***A WARM WELCOME TO ALL OUR NEW PUPILS AND PARENTS – WE HOPE YOU'LL ALL BE HAPPY BEING A PART OF YSGOL CRAIG Y DERYN'S HAPPY FAMILY!***
DYDDIADAU PWYSIG: 19/10/17 – Lluniau Ysgol. 27/10/17 – Diwedd Tymor. 06/11/17 - HMS: Ysgol ar gau. 07/11/17 – DYDD MAWRTH – Ysgol yn ail-agor. 14 a 15/11/17 – Noson rieni. 11-15/12/17 – Ffair lyfrau 12 a 13/12/17 – Cyngerdd Dolig 17/12/17 – Gwasanaeth carolau eglwys Llwyngwril 22/12/17 –Diwedd Tymor. 03/01/18 – Tymor newydd yn cychwyn.	**IMPORTANT DATES:** 19/10/17 – School Photos 27/10/17 – End of Term. 06/11/17 - HMS: School closed 07/11/17 – TUESDAY – School re-opens. 14 a 15/11/17 – Parent's evening 11-15/12/17 –Book fair 12 a 13/12/17 – Christmas Concert 17/12/17 – Carol service at Llwyngwril Church 22/12/17 – End of term. 03/01/18 – New term.
Rhifau Cyswllt Mae'n hanfodol bod gennym eich rhifau cyswllt brys, cartref a'r gwaith ynghyd a theulu/ffrindiau, yn gywir. Cofiwch roi gwybod i ni os fyddwch yn newid eich rhif ffôn symudol.	**Contact Numbers** It is imperative that we have your correct contact details for home and work plus extended family/friends. Please ensure that you let us know if you change your mobile number.
Clwb brecwast (am ddim i bob plentyn) Er mwyn sicrhau bod staff y clwb brecwast yn gwybod pa ddisgyblion sydd wedi cyrraedd a wnewch chi sicrhau eu bod yn defnyddio drws y neuadd o dan y bondo (heibio drws y gegin) BYDD Y PRIF FYNEDFA AR GLO TAN 8.45am. (gall unrhyw blentyn arall sydd yn cyrraedd cyn 8.45 ddefnyddio drws y neuadd hefyd)	**Breakfast club (Free to all children)** To ensure that the breakfast club staff are totally aware of which pupils are attending could all children please use the main door of the hall under the bondo (past the kitchen door). THE MAIN ENTRANCE WILL BE LOCKED UNTIL 8.45am (any other children arriving before 8.45 can also use the hall door)

Teithio adre o'r ysgol

MAE'N HANFODOL BOD POB PLENTYN SYDD YN TRAFEILIO AR Y BWS YSGOL WEDI COFRESTRU HEFO GWYNEDD.

Plis cofiwch bod rhaid i'r ysgol wybod am unrhyw newidiadau i drefn arferol eich plentyn yn teithio adre. Mae llawer o blant, yn enwedig y plantos bach, yn poeni nad ydynt yn gwybod sut y maent yn mynd adref. Mae hyn yn achosi pryder i'r plant ac yn gwneud eu 10 munud olaf yn yr ysgol yn boendod iddynt. Hefyd mae'r ysgol angen gwybod os oes bobl newydd yn dod i gwrdd y plant o'r ysgol.

Mae'ch cyd-weithrediad gyda'r uchod yn holl bwysig er diolgelwch eich plant/plentyn.

Gwisg ysgol

Os ydych angen gwisg ysgol newydd mae stoc eitha da yn yr ysgol – ffeindiwch Rhian!

Cinio Ysgol.

Hoffwn eich atgoffa mai'r Awdurdod yn unig sy'n caniatáu cinio am ddim i'r plant. Fe'm hysbyswyd na ellir caniatáu credyd i unrhyw deulu. Mae'n rhaid i bawb felly dalu am y cinio ar fore Llun bob wythnos—y gost yw £2.50 y diwrnod/£12.50 yr wythnos. Dim ond ar achlysuron arbennig y dylid talu ar ddydd Gwener. Mae croeso i rieni dalu fesul pythefnos neu fis—ond ymlaen llaw. Dylid gwneud sieciau yn daladwy i Cyngor Gwynedd, nid Ysgol Craig y Deryn.

Pecynnau bwyd.

Hoffwn eich atgoffa ni chaniateir dwr wedi ei flasu, diod ffrwyth/ sudd oren ag afal na 'pop' fel rhan o becynnau bwyd y plant. Mae dŵr ar gael i bob plentyn amser cinio. Cofiwch pwysicrwydd pecyn iach

Travelling home from school.

IT IS IMPERATIVE THAT ALL CHILDREN ELIGIBLE FOR TRAVEL ON THE SCHOOL BUS ARE REGISTERED WITH CYNGOR GWYNEDD.

Please could you ensure that the school are informed of any change to the normal 'going home' routine. Some of the younger children, especially, are unable to remember changes to routine which has caused great distress and makes the last 10 minutes of school an anxious time for many.

We also need to be made aware of new people collecting your child/children.

Your co-operation with the above is essential to ensure your child's safety.

School uniform

If you need any items of school uniform we have quite a stock here in school – just find Rhian!

School Dinner

I wish to remind you that it is the Education Authority alone who grants free meals. The Authority has informed me that school meals credit can not be allowed. It is important that all money be paid on a Monday morning - £2.50 per day/£12.50 per week. Only on exceptional circumstances should money be paid on a Friday. Those parents wishing to pay fortnightly or monthly are welcome to do so in advance. Cheques should be made payable to Gwynedd Council, not Ysgol Craig y Deryn.

Packed lunches

I wish to remind you that flavoured water, squash, orange/apple juice and especially fizzy 'pop' are not permitted with packed lunch. Water is available for all children at lunchtime. Please make every effort to ensure the packed lunches are healthy.

Absenoldeb
Os yw eich plentyn yn absennol wnewch chwi rhoi galwad ffôn ar y bore neu ysgrifennu llythyr i egluro'r absenoldeb – neu fe fydd yn rhaid i ni ei gofnodi fel absenoldeb heb ganiatâd a gall yr absenoldeb gael ei ymchwilio gan swyddog lles. Rhaid pwysleisio: dylai pob gohebiaeth ddod i'r swyddfa yn gyntaf os ydych am wneud cais am wyliau neu amgylchiad arall megis apwyntiadau/ priodas/angladd. Disgwylir i bob plentyn i fynd i'r ysgol 100% o'r amser

Gwyliau
Diolch i rieni sydd wedi trefnu'ch gwyliau yn ystod gwyliau'r ysgol ac nid yn ystod tymor yr ysgol. Mae canran y disgyblion sy'n absennol o'r ysgol o ganlyniad i wyliau teuluol yn gwella. Cofiwch fod *rhaid* cael caniatad gan yr ysgol i fod ar wyliau yn ystod tymor ysgol. Mae gan yr ysgol hawl i wrthod hyn. Un cais gwyliau y flwyddyn sy'n cael ei ganiatáu.

Gwersi Cerdd 2017-2018
Os yw eich plentyn (bl 3-6) yn dymuno dechrau gwersi gitar, piano, chwythbrennau neu delyn o Fedi 2017, cysylltwch hefo Rhian yn y swyddfa.

Clwb ar ôl ysgol – blynyddoedd 3-6
Mi fydd y clwb ar ôl ysgol yn ail-gychwyn Nos Fercher Hydref 4ydd ac yn rhedeg **o 3.30 - 5.00pm. (gan bod y clwb yn gorffen hanner awr yn hwyrach mae'n hanfodol fod rhieni ar amser yn codi'r plant oherwydd mae'r staff ynghlwm a dyletswyddau eraill ar ôl 5pm)** Bydd cost wythnosol o 50c yr un i bob plentyn ar gyfer diod a snac.

Labelu Dillad.
Cofiwch roi enw eich plentyn ar bob darn o'r wisg ysgol, hefyd ar bob côt a gwisg addysg gorfforol, gan ei bod hi'n anodd iawn gwahaniaethu rhwng un dilledyn a'r llall. Ni allwn gymeryd cyfrifoldeb am ddillad ysgol.

Absences
If your child is absent from school would you please telephone or send a letter to explain the absence on that morning, otherwise it will be regarded as an absence without consent and may be investigated by the welfare officer.
Please note: if you need to request time off for your child for a holiday/medical appointment/wedding/funeral etc, please contact the school office. Each child is expected to attend school 100% of the time.

Holidays
Thank you you for arranging your holidays during the school holidays and not during term time. The percentage of children absent due to family holidays during the school term is improving. Please *remember* to secure permission from the school if you need to take a holiday during term time. The school can refuse permission. School can only grant one holiday per year.

Instrument lessons 2017-2018
If your child (yrs 3-6) would like to have guitar, piano, wind or harp lessons from September 2017, please contact Rhian in the office.

After School Club – years 3-6
After school club will re-start on Wednesday October 4th and will now run from **3.30-5.00pm (due to the club running half an hour later it is imperative that parents are not late collecting children as the staff running the club have other commitments after 5pm.)** All those attending after school club will need to pay 50p each week which will cover the cost of a drink and snack.

Identification of Clothing
Please help us by making sure that all your child's clothing – uniform, coats and PE kit are clearly marked with your child's name. We cannot take responsibility for school clothing.

Dillad Ymarfer Corff Dylai pob plentyn ddod a gwisg ymarfer corff i'r ysgol yn ddyddiol. Er mwyn ein cynorthwyo i addysgu ymarfer corff, gofynnwn i chi wirio fod gan eich plentyn wisg addas - **eisgidiau ymarfer, crys-t coch, siorts du** - gyda'u henwau wedi ei nodi yn glir ar bob eitem, wedi'i gadw mewn bag. Dylid dod a'r bag i mewn ar ddechrau'r wythnos, gan fynd ag ef adref ar ddiwedd yr wythnos er mwyn golchi.	**P.E. Kit** All children should have a PE kit with them in school every day. To support us with teaching your child PE, please can you make sure your child has the correct PE kit - trainers, red t-shirt, black shorts or tracksuit - all clearly labelled with their name, in a draw-string bag. This will help us to avoid getting PE kits mixed up. Their PE kit needs to be sent into school at the beginning of the week, and taken home at the end of the week to be washed.
Poteli Dŵr Mae'n bwysig iawn fod rhieni yn sicrhau fod poteli yn cael eu golchi yn y cartref yn rheolaidd. Mae modd i'r plant ddefnyddio eu potel yn yr ysgol, ond cyfrifoldeb y rhieni ydy eu golchi. Dŵr pur yn unig a ganiateir i'w yfed yn yr ysgol. Polisi Gwynedd ac ysgol yw hwn. **Ni chaniateir sudd ffrwythau na blas ar ddŵr.**	**Water bottles** It is very important that parents ensure that bottles are washed at home regularly. Children are to use their bottle in school, but the parents are responsible for washing them. Natural Water only to be drank at school. This is a Gwynedd and school policy. **Fruit juice or flavoured water are not permitted**.
Trefnu Apwyntiad Os fyddwch am drafod eich plentyn gyda'r athrawes neu minnau, gofynnwn yn garedig i chi drefnu amser cyfleus i bawb.	**Appointment System** Should you wish to discuss your child with his/her teacher or myself, please ensure that you have arranged a prior appointment.
Cyfathrebu hefo rhieni Cofiwch ymweld a gwefan yr ysgol am ddiweddaraiad www.ysgolcraigyderyn.org ynghyd â gwyneblyfr yr ysgol 'Craigyderyn'.	**Communication with parents** Remember to check the website for updates www.ysgolcraigyderyn.org along with the facebook page 'CraigyDeryn'.